Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru

## Yr hyn rydym wedi'i wneud ers cyhoeddi’r Cynllun a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud






# Cyflwyniad

Ar 15 Mawrth 2024, cyhoeddwyd ein Cynllun Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru (y Cynllun), gan ddwyn ynghyd ein holl bolisïau a'n holl raglenni cysylltiedig o bob rhan o Lywodraeth Cymru. Mae'r Cynllun yn gosod y plentyn a'i ddatblygiad wrth wraidd popeth a wnawn, a chafodd ei ddatblygu o amgylch tair thema: ansawdd y ddarpariaeth, mynediad at y ddarpariaeth, a chefnogi a datblygu'r gweithlu. Trwy ganolbwyntio ar y themâu hyn, mae'r cynllun yn cefnogi datblygu a darparu cyfleoedd addysg a gofal plant seiliedig ar chwarae sy'n gynhwysol ac yn uchel eu hansawdd i bob baban a phlentyn bach 0–5 oed.

Mae'r tudalennau nesaf yn nodi'r hyn y byddwn yn parhau i'w wneud, yr hyn rydym eisoes wedi'i wneud ers cyhoeddi'r Cynllun, a beth arall y byddwn yn ei wneud hyd at ddiwedd tymor y Senedd hon (Mai 2026).







OGL © Hawlfraint y Goron 2025 Llywodraeth Cymru WG52258

# Yr hyn y byddwn yn parhau i’w wneud:

Darparu Dechrau’n Deg

Cynnig pryd maethlon am ddim amser cinio i bob plentyn ysgol gynradd

Cyflawni’r gwaith o ehangu Gofal plant Dechrau’n Deg i blant dwy oed yng Nghymru

Cyflwyno’r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae i gefnogi’r mynediad hollbwysig i gyfleoedd chwarae gyda bwyd/byrbrydau i blant

Ariannu Mudiad Meithrin i gyflwyno’r rhaglen Sefydlu a Symud

Hyrwyddo Rhaglen Niwrowahaniaeth y Blynyddoedd Cynnar

Cyflwyno’r Cynnig Gofal Plant i Gymru

Helpu i feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth y gweithlu o iechyd meddwl a llesiant babanod a phlant bach drwy Fframwaith NYTH

Gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi ein huchelgeisiau i wella cyfleoedd i chwarae, a hyrwyddo manteision chwarae er lles plant

Ariannu Plant yng Nghymru i ddarparu hyfforddiant Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar

Darparu addysg feithrin ran–amser i blant 3 a 4 oed

Ariannu Chwarae Cymru i hyrwyddo gwerth Chwarae a chefnogi bwrw ymlaen â chamau gweithredu yn dilyn argymhellion yr Adroddiad ar yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae

Darparu Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar

Ariannu Cwlwm i gynyddu argaeledd gwasanaethau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig hygyrch, fforddiadwy a hyblyg o ansawdd uchel.

Codi ymwybyddiaeth o'r newid yn y gyfraith o dan Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) 2020



Bwrw ymlaen â chamau gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth–hiliol a chefnogi gweithlu gofal plant mwy amrywiol

Bwrw ymlaen â’r camau gweithredu o argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Warchod Plant

Ariannu Plant yng Nghymru i gynnal y Rhwydwaith Hawliau Plant yn y Blynyddoedd Cynnar a’r Grŵp Gweithredu Blynyddoedd Cynnar

Gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) i sicrhau bod plant ag ADY yn cael eu hadnabod a’u cefnogi

Ariannu gwasanaeth Cyswllt Rhieni Cymru tan fis Mawrth 2026

Cynnal adolygiad deddfwriaethol o Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i gael tystiolaeth i ddeall yr heriau ymarferol sy’n wynebu partneriaid cyflenwi wrth weithredu’r system ADY

Hyrwyddo ymgyrch Plentyndod Chwareus Cymru



OGL © Hawlfraint y Goron 2025 Llywodraeth Cymru WG52258

# Yr hyn rydym wedi'i wneud i gefnogi mynediad at ddarpariaeth

Darparu cynnydd o 28% yng nghyfradd fesul awr y Cynnig Gofal Plant a delir i leoliadau gofal plant ar gyfer 2025-2026 a symud i adolygu'r gyfradd yn flynyddol

Cefnogi teuluoedd drwy'r rhaglen Cymraeg i Blant. Cynhaliwyd 2,455 o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar–lein, gyda 19,756 o blant a 19,873 o oedolion yn bresennol

Dechrau datblygu cynigion ar gyfer gwella Trefniadau Digonolrwydd Gofal Plant

Datblygu esboniwr animeiddiedig ar sut mae Ysgolion Bro yn cefnogi Tegwch mewn Addysg




Darparu cyllid cyfalaf i awdurdodau lleol yn 2025-2026 i wella ansawdd mannau chwarae a meysydd chwarae, gan greu cyfleoedd chwarae hygyrch

Creu E–ddysgu a chanllawiau i weithwyr proffesiynol i godi ymwybyddiaeth o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 gyda phlant

Cefnogi'r Tîm Niwrowahaniaeth Cenedlaethol i ddiweddaru'r tudalennau gwe 'Rwy'n gweithio mewn lleoliad blynyddoedd cynnar'



OGL © Hawlfraint y Goron 2025 Llywodraeth Cymru WG52258

# Yr hyn rydym wedi'i wneud i gefnogi ansawdd y ddarpariaeth

Dechrau adolygu'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio i fynd i'r afael ag argymhellion na chawsant eu gweithredu o'r adolygiad diwethaf ac i adlewyrchu newidiadau yn y sector gofal plant yng Nghymru sydd wedi digwydd ers yr adolygiad diwethaf

Cyhoeddi ymateb i adroddiad Estyn ar effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, cymorth, darpariaeth a phontio ar gyfer addysg gynnar

Cynnal sgwrs rhwydwaith cenedlaethol mewn perthynas â galluogi dysgu gyda dros 200 o ymarferwyr yn bresennol

Cyhoeddi canllawiau atodol ar gyfer Ysgolion Bro ar agweddau allweddol ymgysylltu amlasiantaethol a phedair astudiaeth achos fideo sy'n tynnu sylw at ddulliau gweithredu Ysgolion Bro mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac unedau cyfeirio disgyblion



Cynnal sesiynau ymgysylltu galluogi dysgu gyda dros 400 o unigolion yn bresennol: cefnogi uwch-arweinwyr ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion pob oedran, ysgolion arbennig, ac unedau cyfeirio disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o sut y gall gefnogi cynllunio, dylunio a gweithredu cwricwlwm sy'n briodol yn addysgegol i bob dysgwr

Cefnogi Straen Trawmatig Cymru i dreialu cwrs hyfforddiant newydd ar Ymarfer, Sgiliau a Strategaethau sy'n ystyriol o drawma ar gyfer (y rhai sy'n gweithio gyda) Plant a Phobl Ifanc, a oedd yn cynnwys 500 o unigolion ar draws ystod o wasanaethau, gan gynnwys addysg, gwasanaethau plant a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

Adnewyddu'r deunyddiau hyfforddiant seiliedig ar drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd

Cyhoeddi'r pecyn cymorth Creu Diwylliant Gwrth-hiliol mewn Lleoliadau

Cyhoeddi cylchlythyr sy'n darparu gwell eglurder ymarferol ar y defnydd o barasetamol hylif



OGL © Hawlfraint y Goron 2025 Llywodraeth Cymru WG52258

# Yr hyn rydym wedi'i wneud i gefnogi a datblygu'r gweithlu

Penodi Cydgysylltydd Cenedlaethol Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc

Gwneud rhyddhad ardrethi o 100% yn rhywbeth parhaol i fusnesau bach gofal plant cofrestredig

Cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddaru o'r Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

Cyd–gynhyrchu hyfforddiant ar hawliau plant ac iechyd meddwl NYTH a gwneud yn siŵr ei fod ar gael i bawb

Ariannu Gofal Cymdeithasol Cymru, fel rhan o'u Rhaglen Llwybrau at Ofal Plant, i ddatblygu eu cynnig treialu gwaith yn 2025 a chefnogi 50 o leoliadau ledled Cymru i gynnig y cyfleoedd hyn. Mae 463 o unigolion wedi cwblhau'r rhaglen

Cyhoeddi Adroddiad Cynnydd ar yr Adolygiad Gweinidogol o Gamau Gweithredu ar Gyfleoedd Chwarae gan gynnwys fersiwn sy'n addas i blant ac animeiddiad



Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth–hiliol: Diweddariad 2024

Cyhoeddi Canllaw Adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, Adnoddau Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar: Esboniwr Animeiddiedig a thaflen Hawliau Plant Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar i ymarferwyr

Ariannu Gofal Cymdeithasol Cymru i gynnal ymgyrchoedd hyrwyddo gan gynnwys:

- Gweithio ym maes Gofal Plant
- Prentisiaethau ym Meithrinfa Chuckles
- Prentisiaethau
- Gwirfoddoli ym Meithrinfa Shining Stars

Ariannu Gofal Cymdeithasol Cymru i gyflwyno cyfres o ddigwyddiadau rhwydwaith datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer ymarferwyr a rheolwyr, ysgol y Gwanwyn a'r Hydref a gŵyl wythnos o hyd ar ddysgu gydol oes ym mis Tachwedd 2024

Ariannu'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gyflogi Swyddog Cymorth er mwyn helpu i gadw myfyrwyr ar y cyrsiau Cymraeg penodol i ofal plant a gynigir

Cyhoeddi ymgynghoriad, crynodeb o'r ymatebion a diweddariad o ran y camau nesaf ar Gofrestru'n broffesiynol y Gweithlu Gofal Plant a Gwaith Chwarae

Ariannu awdurdodau lleol i gynnig hyfforddiant a chefnogaeth cyn cofrestru i warchodwyr plant

Ariannu DARPL (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth–hiliaeth) i gyflwyno sesiynau dysgu proffesiynol i ymarferwyr ac arweinwyr mewn gofal plant. Datblygu cyfres arweinyddiaeth fanylach o ddysgu gwrth–hiliol ar gyfer arweinwyr gofal plant

Cyhoeddi'r canllawiau statudol wedi'u diweddaru 'Cymru – Gwlad lle mae cyfle i chwarae' ar gyfer awdurdodau lleol

Ymestyn y contractau i gyflawni tri chymhwyster allweddol ar gyfer gwaith chwarae hyd at 31 Mawrth 2026

Ariannu drwy Cwlwm, i Mudiad Meithrin gyflawni'r hyfforddiant Cam wrth Gam



OGL © Hawlfraint y Goron 2025 Llywodraeth Cymru WG52258

# Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud i gefnogi mynediad at ddarpariaeth

- Prosiect Pengwin – pecyn arolygu a chymorth iaith, lleferydd a chyfathrebu i'w gyflwyno o 2026.
- Ymgymryd â gwaith gwyddonol ymddygiadol ym maes trosglwyddo iaith i helpu'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg i wneud hynny gyda'u plant a helpu'r rhai sy'n ansicr neu sydd heb wneud hynny ers peth amser i ddeall eu bod hwy hefyd yn gallu siarad Cymraeg gyda'u plant.
- Cyhoeddi ymgynghoriad ar y Ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i Adolygu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant.
- Ymgymryd ag ymchwil i ddeall profiadau a safbwyntiau pobl Ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol wrth gael mynediad at ofal plant a'i ddefnyddio.
- Cyhoeddi ymgynghoriad ar yr adolygiad o Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a datblygu Cynllun Cymeradwyo ar gyfer Gofal Plant, Chwarae a Gweithgareddau.
- Adolygiad o'r Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar i'w gyhoeddi yn 2026.
- Cyhoeddi Adroddiad Cynnydd ar y Strategaeth Tlodi Plant erbyn mis Rhagfyr 2025.



- Cynnal adolygiad dair blynedd ar ôl gweithredu interim o Ddeddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020.
- Creu adnoddau Magu Plant. Rhowch Amser Iddo y gellir eu llwytho i lawr ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc yn eu harddegau, a chefnogi iechyd a llesiant y rhieni, i'w hysbysebu'n ddigidol.
- Cyhoeddi 'Llyfr Mawr Teimladau – Llyfr i'ch helpu chi a'ch plentyn gydag emosiynau', Magu Plant. Rhowch Amser Iddo.
- Cynnal adolygiad llawn o wefan Magu plant. Rhowch amser iddo.
- Adnewyddu a chyhoeddi'r Canllawiau Teuluoedd yn Gyntaf a Magu Plant yng Nghymru.
- Cyhoeddi Ymchwil Ansoddol Teuluoedd yn Gyntaf.
- Adolygu, symleiddio a safoni gwybodaeth am ofal plant i alluogi rhieni i lywio'r dirwedd yn haws i wneud dewisiadau sy'n gweddu i anghenion eu teulu.





OGL © Hawlfraint y Goron 2025 Llywodraeth Cymru WG52258

# Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud i gefnogi ansawdd y ddarpariaeth

- Adolygu'r canllawiau Dechrau'n Deg.
- Diweddaru canllawiau darpariaeth addysg feithrin awdurdodau lleol i blant 3 a 4 oed.
- Cyd–ddatblygu trefniadau asesu plant o'u genedigaeth hyd at 3 oed.
- Cyhoeddi'r deunyddiau hyfforddiant seiliedig ar drawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod diweddaraf ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ar ffurf 'rhestr chwarae' i gynorthwyo â hygyrchedd.
- Cyflwyno'r cwrs hyfforddiant ar Ymarfer, Sgiliau a Strategaethau sy'n ystyriol o drawma ar gyfer (y rhai sy'n gweithio gyda) Plant a Phobl Ifanc.
- Hyrwyddo'r pecyn cymorth Creu Diwylliant Gwrth–hiliol i leoliadau.
- Cyhoeddi ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir.
- Ymgynghori ar Reoliadau a Chanllawiau ar Fwyd Ysgol Iach.

# Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud i gefnogi a datblygu'r gweithlu

- Datblygu Siarad â fi 2.
- Darparu'r rhaglen Hyfforddiant a Chymorth ar gyfer ymarferwyr gofal plant a gwaith chwarae.
- Cynnal adolygiad o sut rydym yn cefnogi cymwysterau gwaith chwarae i sicrhau bod unrhyw gymorth yn y dyfodol yn addas i'r diben.
- Cefnogi'r rhaglen cymwysterau gofal plant iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr gofal plant Lefel 3 a Lefel 5.
- Sefydlu corff dysgu ac arweinyddiaeth broffesiynol cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddatblygu'r Llwybr Dysgu Cynorthwywyr Addysgu.



OGL © Hawlfraint y Goron 2025 Llywodraeth Cymru WG52258